[Scroll down or click here for English version]

# Cylchlythyr yr Hydref

Hydref 2021

Yn ystod y 18 mis diwethaf mae Tir Coed wedi wynebu rhai o'n heriau mwyaf erioed, ond wrth inni nesáu at yr haf gallem weld y golau ar ddiwedd yr hyn a fu'n dwnnel hir, tywyll iawn.
O'r diwedd, roeddem yn gallu dychwelyd i'r coed, ailgychwyn cyrsiau a gwneud yr hyn rydym yn gwneud orau; rhannu ein cariad at yr awyr agored wrth roi cyfle i bobl ailgysylltu â natur ac â'i gilydd, ynghyd â dysgu oddi wrthynt.
Er bod yn rhaid i ni gyfyngu ar nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau i sicrhau ein bod yn cadw pawb - staff a hyfforddeion - yn ddiogel, roedd yn hyfryd dychwelyd i'r gwaith a'r coetiroedd, ac mae'r adborth gwych a gawsom gan hyfforddeion wedi pwysleisio gwerth beth rydyn ni'n ei wneud.



Fe wnaeth ein cyrsiau 12 wythnos hefyd ein galluogi i lansio ein prosiect peilot 'Dysgu Digidol', lle rhoddodd Tir Coed lyfrau gwaith digidol rhyngweithiol cwbl weithredol wedi'u gosod ar iPads yn lle ein llyfrau gwaith papur traddodiadol y mae hyfforddeion fel arfer yn eu defnyddio. Byddai'n deg dweud bod y newidiadau wedi cyflwyno digon o heriau, ond mae'r broses wedi bod yn amhrisiadwy wrth ragweld posibiliadau'r dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn llunio ein hadroddiad canfyddiadau cychwynnol, a fydd yn cael ei ddosbarthu i **gannoedd o randdeiliaid a grwpiau â diddordeb** sy'n awyddus i weld sut rydym yn gwthio ffiniau dysgu awyr agored.



Mae'r cyrsiau hefyd wedi darparu platfform i arddangos creadigrwydd a sgiliau newydd ein hyfforddeion, sydd wedi defnyddio eu hamser yn y coed i greu popeth o set gyflawn o offerynnau cerdd pren - gan gynnwys pecyn drwm a seiloffon maint llawn - i bont, porth bwaog a giât. Llwyddodd cyfanswm o **20 hyfforddai** i ennill achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol gan Agored trwy ein cymhwyster Gofalu newydd.



Mae Tir Coed hefyd wedi bod yn symud ymlaen â'n rhaglen AnTir newydd gyda phrosiect peilot. Mae AnTir wedi'i gynllunio fel prosiect saith mlynedd sy'n darparu gweithgareddau hyfforddi a lles mewn arferion tir adfywiol, gan gynnwys tyfu bwyd (a rheoli coetir wrth gwrs!). Mae'r prosiect eisoes yn profi i fod yn llwyddiant. Gyda nawdd gan Arian i Bawb a phecyn datblygu gan Cadw Cymru'n Daclus, rydym wedi gallu dechrau datblygu **gardd gymunedol** mewn cae wrth ymyl Coed Tyllwyd yn Llanfarian, Ceredigion, lle ymunodd chwe chyfranogwr â chwrs deng wythnos i ddysgu mwy am dyfu bwyd mewn ffordd gyfannol, adfywiol. Hefyd, bu **wyth sesiwn crefft gardd** ym Mhenparcau, Aberystwyth, ble roedd mwy na **100 o fynychwyr** yn cymryd rhan gan hyrwyddo ein gweithgareddau.



Fel erioed, mae codi'r arian angenrheidiol i barhau â'n gwaith wedi bod yn broses heriol a llafurus, ac rydym yn falch iawn o gadarnhau bod gwaith caled ein tîm Codi Arian a Chyllid wedi gweld ceisiadau llwyddiannus am gefnogaeth gan The Mary Homfray Charitable Trust, The 29 May 1961 Charitable Trust, Cronfa Dewi Davies, Elusen Margaret Davies, Elusen Didymus a Chronfa Sir Gaerfyrddin. Mae pob cyllidwr wedi rhoi rhwng £4,000 a £5,000 i gefnogi agwedd ar ein gweithgaredd ymgysylltu a dilyniant a'r staff sy'n ei gyflawni. Ariennir y gwobrau hyn yn gyfatebol gyda'n cyllid Cronfa Loteri Gymunedol bresennol ar gyfer gweithgaredd yn ystod Blwyddyn 5 ein Prosiect LEAF. Rydym hefyd yn aros i glywed canlyniadau sawl cais arall ar gyfer LEAF, a hefyd ar gyfer datblygu a pharhau i dreialu prosiect AnTir.

Yn ogystal â'n cyrsiau hyfforddi, mae pob sir hefyd wedi bod yn brysur yn gweithio ar weithgaredd Masnachu Prif Ddiben, sydd wedi tyfu'n sylweddol ers diwedd y cyfnod clo. Mae'r cynnydd hwn yn y galw wedi gweld Nancy yn ymgymryd â rôl newydd fel Cydlynydd Dysgu Natur (hanner diwrnod yr wythnos i ddechrau) i gydlynu'r llu o geisiadau rydym nawr yn eu derbyn gan ysgolion ar gyfer ein mewnbwn a'n cymorth i ddarparu cyfleoedd dysgu awyr agored a hyfforddiant sy'n galluogi staff ysgolion i'w cynnal. Mae un o'n prosiectau ysgolion mwyaf gydag Ysgol Harri Tudur ym Mhenfro, lle rydym yn gweithio gyda 3 grŵp o ddisgyblion o 3 grŵp blwyddyn trwy gydol y flwyddyn academaidd. Bydd Blwyddyn 9 yn dilyn Uned Rheoli Cefn Gwlad achrededig yn y flwyddyn newydd. Yn ogystal â chyfateb i'r cyllid ar gyfer ein prosiect LEAF rydym yn gobeithio, dros amser, y bydd ein gwaith gydag ysgolion a gwaith 'masnachu prif ddiben' yn gyffredinol yn cyfrannu'n sylweddol at ein cynhyrchiad incwm ac yn helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sefydliad.



Rydym hefyd yn falch iawn o groesawu aelodau newydd i'n tîm: mae **Ben Flynn** wedi ymuno fel Mentor Powys ac mae **Nel Jenkins** yn ymgymryd â'r un rôl yn Sir Benfro. Mae Ben a Nel yn gyn hyfforddeion Tir Coed, ac rydym yn falch iawn bod y ddau nawr yn edrych i rannu eu hangerdd dros y coetiroedd â chenedlaethau o hyfforddeion y dyfodol. Rydym hefyd wedi croesawu **Charlie Pinnegar** i rôl Cydlynydd Ceredigion.



# Autumn newsletter

October 2021

In the past 18 months Tir Coed has faced some of our biggest challenges ever, but the arrival of summer meant we could see light at the end of what's been a very long, dark tunnel.
We were, at last, able to return to the woods, restart courses and do what we do best; sharing our love of the outdoors while providing people with an opportunity to reconnect with and learn from nature and each other.
Although we had to limit the number of places available on courses to ensure we kept everyone – staff and trainees – safe, it was wonderful to get back to work and the woodlands, and the fabulous feedback we have received from trainees has underlined the value of what we do.



Our 12-week courses also enabled us to launch our 'Dysgu Digidol' (Digital Learning) pilot project, in which Tir Coed replaced our traditional paper-based trainee workbooks with fully functional interactive digital workbooks installed on iPads. It would be fair to say that the changes have thrown up plenty of challenges, but the process has proved invaluable in envisioning future possibilities. We are currently compiling our initial findings report, which will be distributed to **hundreds of stakeholders and interested groups** who are keen to see how we are pushing the boundaries of outdoor learning.



The courses have also provided a platform to showcase the creativity and new skills of our trainees, who have used their time in the woods to make everything from a complete set of wooden musical instruments – including a full-sized drum kit and xylophone – to a bridge, an archway and a gate. A total of **20 trainees** successfully gained nationally-recognised accreditation from Agored through our new Gofalu qualification.



Tir Coed has also been progressing our new AnTir programme with a pilot project. AnTir is planned as a seven-year project delivering training and wellbeing activities in regenerative land practices, including food growing (and woodland management of course!). The project is already proving to be a success. With funding from Awards for All and a development package from Keep Wales Tidy, we have been able to begin developing a **community garden** in a field next to Coed Tyllwyd in Llanfarian, Ceredigion, where six participants joined a ten-week course to learn more about growing food in a holistic, regenerative way. There have also been **eight garden craft sessions** at Penparcau, Aberystwyth, engaging more than **100 attendees** and promoting our activities



As ever, raising the necessary funds to continue our work has proved a time-consuming and challenging process, and we are delighted to confirm that the hard work of our Fundraising and Finance team has seen successful bids for support from the Mary Homfray Charitable Trust, the 29th May 1961 Charitable Trust, the Dewi Davies Fund, the Margaret Davies Charity, Didymus Charity and Carmarthenshire Fund. Each funder has donated between £4,000 and £5,000 to support an aspect of our engagement and progression activity and the staff who deliver it. These awards are match-funded with our existing Community Lottery Fund funding for activity during Year 5 of our LEAF Project. We are also waiting to hear the outcomes of several other applications for LEAF, as well as for the development and continued piloting of the AnTir project.

In addition to our training courses, every county has also been busy working on Primary Purpose Trading activity, which has grown significantly since the end of lockdown. This increase in demand has seen Nancy take on a new role as Nature Learning Coordinator (half a day per week initially) to coordinate the many requests we now receive from schools for our input and assistance in providing outdoor learning opportunities and training enabling school staff to sustain them. One of our biggest schools' projects is with Henry Tudor School in Pembroke, where we are working with 3 groups of pupils from 3 year groups throughout the academic year. Year 9 will be following an accredited Countryside Management Unit in the new year. As well matching our LEAF project funding we hope that, over time, our schools work and 'primary purpose trading' work generally will contribute significantly to our income generation and help ensure a sustainable future for the organization.



We are also delighted to welcome new members to our team: **Ben Flynn** has joined as Powys Mentor while **Nel Jenkins** takes on the same role in Pembrokeshire. Both Ben and Nel are former Tir Coed trainees, and we are delighted that both are now looking to share their passion for the woodlands with future generations of trainees. We have also welcomed **Charlie Pinnegar** to the role of Ceredigion Coordinator.



*Copyright © 2021 Tir Coed, All rights reserved.*

Want to change how you receive these emails?
You can update your preferences or unsubscribe from this list.